# GWŶS Y CYNGOR

**Rydych dan wŷs trwy hyn i ddod i gyfarfod CYNGOR DINAS A SIR ABERTAWE i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**
**Dydd Iau, 28 Ionawr 2016 am 5.00 pm**

Cynigir trafod y materion canlynol:


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb.** | |
| 2. | **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.** | |
| 3. | **Cofnodion.**<br>Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a'u llofnodi fel cofnod cywir. | **1 - 9** |
| 4. | **Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.** | **10 - 15** |
| 5. | **Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.** | |
| 6. | **Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.** | |
| 7. | **Cwestiynau gan y Cyhoedd.**<br>Rhaid i'r cwestiynau ymwneud â materion ar ran agored agenda'r cyfarfod, ac ymdrinnir â hwy o fewn 10 munud | |
| 8. | **Cyflwyniad Cyhoeddus - Frack Free Wales.** | |
| 9. | **Mabwysiadu Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor.** | **16 - 25** |
| 10. | **Aelodaeth Pwyllgorau.** | **26 - 27** |
| 11. | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad.** | **28 - 35** |
| 12. | **Hyfforddiant a Datblygiad Cynghorwyr 2016-2017.** | **36 - 46** |
| 13. | **Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.** | **47 - 52** |
| 14. | **Cwestiynau gan y Cynghorwyr.** | **53 - 58** |
| 15. | **Rhybudd o Gynnig: Y Cynghorwyr R C Stewart, A S Lewis, R A Clay, M C Child, U C Clay, C Anderson. C Thomas, W Evans, J E C Harris, J P Curtice, N J Davies, T M White & C R Evans.**<br>**Datblygiad Nwy Anghonfensiynol**<br>**(Nwy Siâl, Echdynnu Methan Gwelyau Glo, Nwyeiddio Glo Tanddaearol a “Ffracio”)**<br>Mae pryder cyhoeddus cynyddol bod echdynnu nwy mewn ffyrdd anghonfensiynol yn peri peryglon sylweddol i'r amgylchedd ac i iechyd a lles cymunedau cyfagos. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid yn | |

gyfyngedig i, lygredd aer posib, llygru ffynonellau dŵr a diwydiannu mwy ar gefn gwlad. Mae pryder hefyd bod archwilio ac echdynnu tanwyddau ffosil drwy ddulliau anghonfensiynol yn golygu tanseilio a dargyfeirio adnoddau rhag buddsoddi mewn dyfodol ag ynni adnewyddadwy diogel.

Mae'n ymddangos nad yw gweithrediadau echdynnu nwy anghonfensiynol yn cael eu rheoleiddio a'u craffu'n ddigonol yn y DU ac, o ganlyniad, mae perygl y bydd y gweithrediadau hyn yn llygru cyrsiau dŵr bregus, natur a thwristiaeth sefydledig, a hynny'n barhaol.

Mae'r posibilrwydd o echdynnu nwy anghonfensiynol yn ne Cymru wedi arwain at bryder sylweddol ymhlith y boblogaeth leol, a gwelir hyn yn nifer y gwrthwynebiadau a gafwyd i geisiadau cynllunio am ddrilio prawf a nifer cynyddol y deisebau sy'n cael eu cyflwyno i Awdurdodau Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru ynghylch y mater.

Mae'r cyngor yn nodi fod ganddo gyfrifoldeb i ddiogelu'r amgylchedd lleol a lles cymunedau lleol, yn ogystal â gwneud ei ran i gefnogi'r rhaglen ynni adnewyddadwy barhaus er mwyn darparu ynni cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nod y cyngor yw cymryd camau o fewn ei bwerau statudol i weithio i ddefnyddio'r ffynonellau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy helaeth sydd ar gael, megis ein hamrediad llanw diguro a'n bryniau gwyntog. Mae'r cyngor yn bwriadu gweithio tuag at beidio â defnyddio unrhyw danwyddau ffosil erbyn 2025 ac mae'n gobeithio bod yn ddarparwr pŵer llanw a gwynt blaengar yn y DU.

**Rhybudd o Gynnig:**

Mae'r cyngor yn bwriadu mabwysiadu polisi a fyddai'n cynnwys rhagdybiaeth, mewn perthynas â pholisi cynllunio, na fyddai'n cefnogi ceisiadau i archwilio neu echdynnu nwy mewn ffyrdd anghonfensiynol, gan gynnwys yr arfer a adnabyddir fel 'ffracio', o fewn Dinas a Sir Abertawe. Byddai hyn hefyd yn cynnwys drilio prawf. Ni fyddai hyn yn atal ceisiadau cynllunio rhag cael eu cyflwyno a byddai'n cymryd ffurf rhagdybiaeth wrthbrofadwy lle caiff amgylchiadau unigol pob achos eu hystyried.

Mae'n amlwg fod Llywodraeth Cymru yn bryderus ynglŷn â'r mater o echdynnu olew a nwy anghonfensiynol ac mae wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015. Effaith y cyfarwyddyd hwn yw na fydd unrhyw awdurdod lleol yn cael caniatáu cais am echdynnu anghonfensiynol am gyfnod o 21 diwrnod sy'n rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru benderfynu ar y cais. Nid yw'r cyfarwyddyd yn berthnasol i ddrilio prawf ac mae'r cyngor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys drilio prawf yn y cyfarwyddyd.

Drwy gymryd yr ymagwedd hon, mae'r cyngor yn gobeithio y bydd ei ymrwymiad i ddyfodol ynni glanach yn dangos i weddill Cymru pa mor

bwysig yw diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn ein galluogi i sefyll gydag awdurdodau lleol arloesol eraill.

Yn ogystal â hyn, mae'r cyngor wedi penderfynu:

1) Y dylai Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio lunio adroddiad manwl i'r cyngor ei ystyried ym mis Mawrth sy'n nodi'r goblygiadau ac argymhelliad o ran y posibilrwydd o fabwysiadu newid i'r polisi cynllunio mewn perthynas ag echdynnu olew a nwy anghonfensiynol.

2) Y dylai Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ac awgrymu y dylid estyn y cyfarwyddyd er mwyn cynnwys drilio at ddibenion archwilio ac echdynnu nwy anghonfensiynol yn unig.

**16. Gwahardd y cyhoedd.** **59 - 62**

**17. Adolygiad Barnwrol - Jewish Human Rights Watch.**

**Cyfarfod nesaf - 5pm ar 25 Chwefror 2016.**

Patrick Arran
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Canolfan Ddinesig
Abertawe

**Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2016**

**I: Bob Aelod o'r Cyngor**